Cenn@d

2 Rhagfyr 2026

Rhifyn 301

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

Diolch am eich llofnod ar gyfer ymgyrch Arise Africa



Ar 12 Tachwedd, mewn digwyddiad arwyddocaol i aelodau'r teulu Cristnogol sy'n cael eu herlid yn Affrica is-Sahara, cyflwynwyd deiseb yn cynnwys llofnodion o'r Deyrnas Unedig ar ran yr ymgyrch Arise Africa yn 10 Stryd Downing, Llundain. Mae dros filiwn o bobl ledled y byd wedi llofnodi'r ddeiseb fyd-eang sy'n galw am ddiogelwch, cyfiawnder ac adferiad i Gristnogion yn Affrica is-Sahara.

Diolch yn fawr iawn i chi os gwnaethoch chi ymateb i'r alwad, ychwanegu eich llofnod a gweddïo dros yr ymgyrch fel darllenwyr *Cenn@d* neu yn eich eglwysi lleol. Diolchwn am y fraint fawr sydd inni yma yng Nghymru o gael addoli'n rhydd rhag ofn ac unrhyw fygwth trais, gan gofio nad felly y mae hi ar lawer iawn o'r eglwys Gristnogol ledled y byd. Diolchwn hefyd am y mudiad Open Doors ac eraill tebyg sy'n codi llais ac yn ymgyrchu o blaid hawliau a diogelwch i'r teulu Cristnogol byd-eang hwn sydd dan erledigaeth.

Cyflwynwyd bocs yn cynnwys llofnodion oddeutu 200,000 o drigolion y Deyrnas Unedig ar y ddeiseb gan Tiffany Barrans, Prif Swyddog Gweithredol Open Doors; Afordia a Kewente* o Nigeria (cynrychiolwyr yr eglwys sy'n cael ei herlid yn Affrica is-Sahara – gweler y llun uchod); y Parch. Osoba Otaigbe (ar ran eglwys Nigeraidd y Deyrnas Unedig); a Tom Collins (Aelod Seneddol dros Gaerwrangon).

"Rydym mor hapus, oherwydd heddiw mae Duw wedi gweld ein hachos, a bydd ef yn ymyrryd ar ein rhan," meddai Afordia, a gollodd ei gŵr, Isaac, mewn ymosodiad gan filwriaethwyr Islamaidd yn 2014.

Mae Kewente wedi bod wrthi'n ofalus yn cofnodi'r manylion am ymosodiadau ar Gristnogion yn ei ranbarth yng ngogledd Nigeria ers 2001, gan gynnwys marwolaethau 1,315 o bobl. "I bob unigolyn sydd wedi llofnodi, mae ein diolch ni'n fawr," meddai.

Wrth gyflwyno'r ddeiseb, roedd cefnogwyr Open Doors gerllaw yn Sgwâr y Senedd (Parliament Square) yn dal lluniau o 12 Cristion a laddwyd oherwydd eu ffydd yn Affrica is-Sahara yn uchel yn yr awyr. Roedd poster arall yn nodi: '12 yn cael eu lladd bob dydd. Heb weithredu, pwy fydd nesaf?'

Nid diwedd y broses yw'r ddeiseb – dyma'r dechrau. Ac mae gweddïo parhaus yn allweddol i sicrhau effaith a llwyddiant y ddeiseb. Fel y dywedodd Afordia: "Pan fyddwn yn cyflwyno'r ddeiseb ynghyd â gweddi, rwy'n gwybod y bydd Duw yn codi ar ein rhan."

Gweddïwch, os gwelwch yn dda:

- i roi clod i Dduw am dros filiwn o leisiau sydd wedi eu hychwanegu at y ddeiseb fyd-eang, ac am bawb sydd wedi teimlo ar eu calon eu bod am fod yn rhan o'r ymgyrch
- y bydd y ddeiseb yn cael effaith uniongyrchol a dwys yn Rhif 10, gan ysgogi trafodaeth, brys a gweithredu yn y dyddiau i ddod
- y bydd momentwm cryf yn datblygu yn yr wythnosau nesaf wrth i'r ddeiseb gael ei chyflwyno i lywodraethau cenedlaethol a sefydliadau rhyngwladol ledled y byd.

Pob bendith,
Simon, Golygydd e-bost
*Newidiwyd yr enw am resymau diogelwch



Capel Seilo, Caernarfon, yn 50 oed — **Tudalen 2**

Cyrddau Sefydlu Natalie Morgan — **Tudalen 3**

Ffrydiau yn y Negef — **Tudalen 5**

Pen-blwydd hapus, Seilo, yn 50 oed







Mewn cyfnod pan fo cynifer o gapeli ac eglwysi'n cau yng Nghymru, braf iawn ydy cael achos i ddathlu a dymuno'n dda i aelodau capel Seilo, Caernarfon, ar gyrraedd pen-blwydd yr adeilad yn 50 oed. Ar 3 Hydref 1976 yr agorwyd y Seilo 'newydd' wedi i'r hen gapel gael ei ddymchwel ar gyfer adeiladu ffordd osgoi Caernarfon. Roedd honno'n mynd drwy safle'r hen Seilo a oedd wedi bod yn sefyll yno er 1900.

Rhwng 4 a 10 Hydref eleni fe gafwyd wythnos o ddathliadau yng nghapel a theatr Seilo i nodi'r pen-blwydd arbennig hwn. Fore Sul, 4 Hydref, roedd y capel yn llawn ar gyfer Oedfa'r Dathlu, gyda nifer o'r aelodau, y plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan ar lafar ac ar gân. Rhoddodd Alwena Lewis amlinelliad o hanes codi'r capel newydd i'r plant, cyn i Eirian Pritchard ddadorchuddio mosaic lliwgar (a'r ffigur 50 arno a wnaed ganddi hi a'r plant o hen lestri Seilo) ynghyd â brodwaith trawiadol i'w osod ar flaen bwrdd y sacrament ac ar y pulpud. Wedi i'r plant a'r bobl ifanc gyflwyno dwy gân yn ysbryd y dathlu, symudwyd i'r theatr ar gyfer parti pen-blwydd arbennig i bawb a oedd yn bresennol.

Nos Fercher, 7 Hydref – gyda'r theatr yn rhwydd lawn – cafwyd noson o hel atgofion am amrywiol weithgareddau'r 50 mlynedd diwethaf mewn rhaglen dan ofal Dr Gwyn Lewis yn dwyn y teitl 'Eiliadau Cofiadwy'. Prif westai'r noson oedd y Parch. Harri Parri, a gychwynnodd ar ei gyfnod cyfoethog a chynhyrchiol fel gweinidog cyntaf y Seilo newydd ar y bore yr agorwyd yr adeilad yn 1976 gan gyn-weinidog yr eglwys, y cyn-Archdderwydd, y diweddar Barch. William. Morris. Drwy gyfrwng lluniau ar sgrin, clipiau sain, a sgyrsiau gyda'r Parch. Harri Parri a nifer o aelodau a charedigion Seilo, cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yn dwyn i gof rai o'r prif gerrig milltir yn hanes Seilo dros yr hanner can mlynedd.

Gwnaed cacen ben-blwydd arbennig ar gyfer yr achlysur gan Eurwen Williams. Wedi i gyn-weinidogion Seilo a'u cymheiriaid – Parch. Harri a Mrs Nan Parri, Parch. Dafydd a Mrs Ann Hughes, a'r Parchn Gwenda ac Elwyn Richards – ei thorri, cafwyd cyfle i gymdeithasu a rhannu atgofion ymhellach dros baned a thamaid o'r gacen. Yn ogystal, roedd pawb yn cael modd i fyw wrth bori drwy'r arddangosfa helaeth o luniau ac arteffactau yn croniclo amrywiol weithgareddau Seilo dros y 50 mlynedd a gasglwyd at ei gilydd gan Sioned Clwyd Jones a Dorothy Williams.

Ac yna, nos Sadwrn, 10 Hydref, roedd y theatr yn llawn unwaith eto ar gyfer penllanw'r dathliadau gyda chyngerdd clasurol mawreddog yng nghwmni Eiry Price, Meinir Wyn Roberts, John Ieuan Jones, Jonathan Davies a Chôr Meibion Caernarfon, gydag Ann Peters Jones yn cyfeilio ac Eifion Harding yn arwain y noson (a Manon Llwyd yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Cerdd). Dyma glo perffaith i wythnos drawiadol a chofiadwy o ddathlu.

Er bod y prif bwyslais ar ddathlu ac edrych yn ôl dros y 50 mlynedd diwethaf, mae Seilo'n eglwys sy'n troi ei golygon at y 50 mlynedd nesaf wrth geisio gwireddu'r weledigaeth a'r cynlluniau cyffrous sydd ganddi i ddatblygu'r adeilad yn lleoliad amlbwrpas yn nhref Caernarfon drwy brosiect 'Symud Mlaen'. Mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau drwy osod paneli solar ar y to i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan agor posibiliadau dirifedi ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth a chryfhau ein tystiolaeth Gristnogol yn y dref. Ein gobaith a'n dyhead ydy y bydd Seilo'n parhau i symud ymlaen gyda ffyrdd newydd o wasanaethu'r gymuned yng Nghaernarfon. Yng ngeiriau'r emyn a gyfansoddwyd gan y Parch. Gareth Maelor adeg sefydlu'r Parch. Harri Parri yn weinidog yma 50 mlynedd yn ôl: 'Trwy'r Efengyl / Bydd i'th Eglwys **newydd wedd**'.

Gwyn Lewis

Ordeinio a sefydlu gweinidog ym Mhenuel Newydd, Casllwchwr





Natalie Morgan ac Eirian Wyn

Dydd o lawen chwedl oedd Sadwrn, 3 Hydref 2026, yn hanes yr eglwys sy'n ymgynnull ym Mhenuel Newydd, Casllwchwr, pan ordeiniwyd ac y sefydlwyd y Parch. Natalie J. Morgan yn weinidog ar yr eglwys.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Ordeinio a Sefydlu am 2 o'r gloch dan lywyddiaeth cyn-weinidog yr eglwys, y Bugail Huw G. Roberts, Treforys. Darllenwyd o'r gair gan y Parch. Owain Llŷr Evans, Caerdydd, un o blant yr eglwys, ac arweiniwyd ein gweddïau gan y Parch. Peter M. Thomas, Aberystwyth, ffrind agos i deulu Natalie. Yna cafwyd deuawd gan Sian Elin Thomas a Donna George i gyfeiliant Rhidian Evans.

Roedd yr ordeinio a'r sefydlu dan ofal medrus y Parch. Eirian Wyn, Brynaman, Arolygwr Cymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg. Cyflwynwyd Natalie ar ran Eglwys Bethania, Aberteifi, gan ysgrifennydd yr eglwys, Mr David Peregrine; ar ran Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion gan yr ysgrifennydd, Mr Rhidian Evans; ar ran Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, gan y pennaeth, y Parch. Ddr Ed Kaneen; ac ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru gan y Parch. Simeon Baker, yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Yna, rhoddwyd yr alwad gan Robert V. Smith, ysgrifennydd Penuel Newydd.

Wedi i'n gweinidog newydd ateb yr alwad, offrymwyd Gweddi'r Sefydlu gan Dr Christian Tucker-Williams, ffrind agos i'r eglwys ym Mhenuel Newydd. Pregethwyd gan y Parch. Irfon C. Roberts, Bethania a Chapel Mair, Aberteifi, a chyhoeddwyd y Fendith gan y Parch. Sian Elin Thomas, Crymych.

Yna symudwyd i Goleg Gŵyr, Abertawe, sydd y tu cefn i'r capel, er mwyn derbyn lluniaeth helaeth dan ofal chwiorydd gweithgar yr eglwys. Yma cynhaliwyd y croesawu, dan lywyddiaeth Mr Glyndwr Prideaux, Llywydd Diaconiad Penuel Newydd. Cafwyd gair o groeso ar ran yr eglwys gan Mrs Anne Evans; gan yr Athro Emeritws Iwan Davies, y Llywydd, ar ran Cymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg; a chan y Parch. David Ward, Riverside, Gorseinon, ar ran eglwysi'r cylch.

Yn yr hwyr cafwyd oedfa Saesneg yn y capel dan lywyddiaeth ein gweinidog. Darllenwyd gan Miss Catherine John, un o aelodau'r eglwys; arweiniwyd y weddi gan y Parch. Sian Elin Thomas, a phregethwyd gan y Parch. Ddr Ed Kaneen. Dymunwyd adferiad iechyd i'r Parch. Rosa Hunt, Llywydd Adran Gymraeg yr Undeb, oedd yn methu bod gyda ni oherwydd anhwylder. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Neil Perinton, Ystradgynlais, un arall o blant yr eglwys. Yr organydd ar hyd y dydd oedd Jonathan Rogers.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar i'r dyfodol ac erfyniwn fendith y nef ar y bugail newydd a'i phraidd yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Glyndwr Prideaux

Oedfa Ddiolchgarwch Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin



Cynrychiolaeth o eglwysi Henaduriaeth Myrddin yng Nhapel y Babell Zion Newydd, Pen-sarn, ar 15 Hydref mewn oedfa o ddiolchgarwch. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. Guto Llewelyn.

Teyrnged i Helen Wyn

Gyda thristwch mawr y cyhoeddwyd marwolaeth ein ffrind a'n cyd-weithiwr annwyl, Mrs Helen Wyn, a hunodd yn dawel yn yr Iesu ar 26 Gorffennaf 2026. Dyma deyrnged Dr Christian Tucker-Williams, a fu'n cydweithio ochr yn ochr â Helen yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru.

Roedd Helen yn aelod gwerthfawr o dîm Swyddfa UBC ac yn uchel ei pharch ymhlith teulu'r Bedyddwyr. Fel Cydlynydd y Gorfforaeth, roedd Helen wedi cynorthwyo nifer fawr o eglwysi, gweinidogion ac aelodau ledled Cymru, a bu ei chyngor doeth a'i chyfeillgarwch yn fendith i gynifer.

Un o gryfderau mwyaf Helen yn y gwaith oedd ei chalon fugeiliol a'i chonsýrn didwyll dros achos Iesu Grist a'i bobl. Yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ers iddi huno, rydym wedi derbyn nifer o negeseuon gan weinidogion, eglwysi a chymanfaoedd yn mynegi gwerthfawrogiad o'r modd yr oedd Helen wedi cynorthwyo a gofalu amdanynt – a hynny yn aml iawn mewn amgylchiadau heriol.

Teg yw dweud bod tîm bychan swyddfa UBC yn fwy o deulu na thîm, ac roedd Helen yn rhan annatod o'r teulu hwnnw. Roedd hi'n fraint ac yn fendith cael cydweithio ag un oedd yn llwyr ymroddedig i'w gwaith a'i chyd-weithwyr. Rydym yn gweld eisiau Helen yn fawr yn y swyddfa – ei chwmni cynnes, y sgyrsiau digri ac yn enwedig y defosiynau roedd hi'n eu paratoi ar gyfer y cyfarfodydd staff, gyda myfyrdodau Beiblaidd, gweddïau ac emynau oedd bob tro yn annog ac yn ysbrydoli. Roedd Helen yn berson llawn egni a brwdfrydedd oedd yn ceisio gwneud y mwyaf o bob cyfle a'r gorau o bob sefyllfa a hynny mewn ffydd yng Nghrist. Diolchwn am ei hagwedd a'i hesiampl a erys yn ysbrydoliaeth inni i gyd.

Fel teulu Bedyddwyr Cymru, cofiwn yn dyner am Eirian, Fflur a'r teulu yn ogystal â theulu Eglwys Siloam, Brynaman (lle roedd Helen yn aelod, yn ddiacon ac yn ysgrifennydd), yn eu colled. Diolchwn am ei ffydd gadarn yn Iesu, yr un a wasanaethodd mor ffyddlon. Gweddïwn y bydd gobaith ei ffydd hi yn gysur i'w theulu a'i hanwyliaid dros y misoedd a ddaw.

(Diolch i'r *Negesydd* am ganiatâd i rannu'r deyrngedd hon)



Helen gyda rhai o'i chyd-weithwyr yn 2022

Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy



Yng nghyfarfod yr hwyr yn yr Henaduriaeth a gynhaliwyd ym Melin-y-wig, ger Corwen, nos Fawrth, 15 Medi 2026, llongyfarchwyd pedwar o aelodau o ddwy eglwys o fewn yr Henaduriaeth ar gael eu hordeinio'n flaenoriaid.

Uchod, gwelir Bethan Trenchard, Ysgrifenyddes yr Henaduriaeth; Llywelyn Roberts, Eglwys Peniel, Deganwy; Cefyn Burgess, Eglwys Peniel, Deganwy; Ifor Eyton Jones, Eglwys Cynfal, Melin-y-wig; Marian Lloyd Jones, Llywydd y Gymdeithasfa; Nerys Owen, Eglwys Peniel, Deganwy; ac Eryl Evans, Llywydd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy.

Ymddeoliad y Parchedig Eric Greene, y Bala



Bore dydd Sul, 27 Medi 2026, yng Nghapel Tegid, y Bala, fe gynhaliwyd oedfa olaf y Parchedig Eric Greene fel gweinidog ar Eglwys Unedig Tegid a Llanfor, a chafwyd bore i'w gofio.

Roedd y gwasanaeth o dan ei ofal ef ac adroddodd hanes diddorol ei bererindod yn y weinidogaeth. Yn ystod y gwasanaeth gwahoddwyd pawb i gyd-gymuno yn Swper yr Arglwydd.

Wedi'r gwasanaeth, fe wnaeth nifer dda o'r aelodau a ffrindiau fwynhau pryd blasus yn y festri. Yno hefyd talwyd sawl teyrnged iddo gan nifer o'r aelodau, a dystiodd i'w ymdrechion cywir gyda holl waith ei weinidogaeth dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd sawl anrheg iddo ef a Mrs Haf Greene.

Wrth gwrs, rhaid oedd cydnabod gwaith Haf, ei briod, gan iddi gefnogi holl waith Eric, a gwneud hynny yn ei ffordd annwyl, hwyliog a chyfeillgar bob amser.

Boed i'r ddau ohonynt nerth ac iechyd wrth iddynt fwynhau eu hymddeoliad, a dymunwn fendith Duw ar Eglwys Tegid wrth iddynt wynebu'r bennod nesaf yma yn eu hanes.

Eryl Edwards

Ffrydiau yn y Negef –
Gweinidogaeth ar gyfer Oedolion Hŷn

Rhannu straeon am ffydd, gobaith a ffyddlondeb Duw

Dros y misoedd nesaf, hoffwn gyflwyno nodwedd reolaidd o'r enw **Ffrydiau yn y Negef**, gan rannu tystiolaethau personol gan Gristnogion am eu taith ffydd.

Wedi'i ysbrydoli gan eiriau Salm 126:4, 'O Arglwydd, adfer ein llwyddiant, fel ffrydiau yn y Negef', nod y gyfres hon yw ein hannog i gydnabod ffyddlondeb Duw ym mhob tymor o fywyd. Nid yw ein teithiau bob amser yn syml. Ar hyd y ffordd, rydym yn profi llawenydd a diolchgarwch, ond hefyd galar, siom, ansicrwydd ac adegau pan gaiff ein ffydd ei phrofi. Eto, trwy'r cyfan, mae Duw yn parhau'n ffyddlon, yn drugarog ac yn gariadus.

Rwy'n credu bod gwerth mawr mewn clywed straeon ein gilydd. Gall profiadau cyd-Gristnogion gryfhau ein ffydd, ein hatgoffa o addewidion Duw a'n hannog i barhau i ymddiried ynddo, hyd yn oed pan fydd bywyd yn anodd. Mae gan genedlaethau hŷn ac iau fel ei gilydd lawer i'w ddysgu gan y rhai sydd wedi cerdded gyda'r Arglwydd trwy lawer o wahanol dymhorau.

Bob mis, rwy'n gobeithio rhannu tystiolaeth gan rywun sy'n fodlon myfyrio ar eu taith, yr heriau y maent wedi'u hwynebu, yr hyn sydd wedi'u cynnal a sut y maent wedi profi gras Duw. Nid straeon am ffydd berffaith na bywydau heb frwydrau yw'r rhain, ond straeon gonest am bobl amherffaith yn darganfod ffyddlondeb Duw perffaith.

Fy ngweddi yw y bydd y tystiolaethau hyn yn ein hannog i edrych yn ôl gyda diolchgarwch, cydnabod daioni Duw yn ein bywydau heddiw ac edrych ymlaen gyda gobaith at bopeth y mae wedi'i addo.

Bydded inni gael ein hatgoffa, hyd yn oed yn nhymhorau sychaf bywyd, fod yr Arglwydd yn gallu dod â ffrydiau o ddŵr bywiol ac adnewyddu ein gobaith ynddo.

Os hoffech rannu am eich taith ffydd eich hun, profiad o ras Duw, neu



wers y mae'r Arglwydd wedi'i dysgu i chi, byddwn wrth fy modd yn clywed gennych; cysylltwch â mi am ragor o wybodaeth. Gallai eich stori fod yn union yr anogaeth y mae rhywun arall ei hangen.

Samantha Hodgins
sam.hodgins@ebcpcw.cymru

Rhaglen Cymanfaoedd Canu Cydenwadol Cymru 2026–27





Ar gael nawr trwy gysylltu â
Helen Gibbon, Caerfyrddin:
helengibbon1@btinternet.com
01267 290518
neu
Alan Wynne Jones, Bow Street:
alan.jones212@btinternet.com
07536098576

Pris: £3.50



Meithrin calon ddi-drais

Cyfres o chwe astudiaeth gan **Rosa Hunt** ac **Ed Kaneen**, Caerdydd, sy'n ystyried y cwestiwn:
Sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais?

Calon ddi-drais 6

Dyma'r olaf mewn cyfres o chwe astudiaeth sy'n ystyried y cwestiwn: sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais? Yn yr astudiaeth gyntaf, fe wnaethon ni ystyried gorchymyn Iesu i garu ein cymydog fel ni ein hunain, gan ofyn sut y gallai caru ein hunain ein helpu i ymateb yn well i bobl sy'n anghytuno â ni. Yn yr ail astudiaeth, fe wnaethon ni ystyried beth sydd gan Iesu i'n dysgu am beidio ag ymateb i drais â thrais, ac awgrymu bod gwrando'n dda yn rhan bwysig o hynny. Wedyn, fe wnaethon ni edrych ar yr hyn sydd gan Iesu i'w ddweud am sut mae barnu yn effeithio ar ein perthnasoedd. Ar ôl hynny, fe edrychon ni ar y teimlad o ddicter a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn cyfathrebu a gwrthdaro. A'r tro diwethaf, fe wnaethon ni ddychwelyd at yr hen draddodiad Cristnogol o weddi fyfyriol fel modd o ganiatáu i Dduw drawsffurfio ein calonnau.

Yr wythnos hon, rydym yn gorffen ein cyfres drwy feddwl beth mae'n ei olygu i ni fod yn dangnefeddwyr yn ein bywydau beunyddiol, gan wrando ar eiriau Iesu a gweithredu arnynt.

Darlleniadau: Mathew 5:9, 7:24–9

Heddiw, rydym yn eich annog i ystyried stori wir Alli a Tom (nid eu henwau iawn):

Alli: Mai 22ain oedd hi, ail ben-blwydd angladd fy mam, ac felly roedd eisoes yn ddiwrnod anodd i mi. Pan gyrhaeddais adref o'r gwaith gyda fy nwy ferch ifanc, sylwais fod pob drôr mewn dodrefnyn yn y cyntedd ar agor, ac roedd llawer o bethau o'r cwpwrdd ar hyd y llawr.

Cymerais yn ganiataol mai fy merched oedd wedi achosi'r llanast. Ond pan es i i mewn i'r ystafell fyw roedd pob drôr wedi'i dynnu allan yno hefyd, ac roedd pethau dros y llawr.

Ffoniais yr heddlu a fy mhartner, ac yna fy nghymydog i weld a allai ofalu am y merched. Y prif beth a'm trawodd oedd fod fy nghamerâu, oedd yn cynnwys llawer o luniau personol o'r teulu, ar goll. Roeddwn i wedi lawrlwytho rhai ohonyn nhw, ond nid y cyfan, gan gynnwys rhai o chwe mis olaf bywyd fy mam. Roedd meddwl am hynny'n anodd iawn.

Pan es i fyny'r grisiau, gwelais fod y gist ddroriau lle'r oeddwn yn cadw fy ngemwaith wedi'i gwagio'n llwyr, a bod ein hystafell wely wedi'i dinistrio – roedd y lleidr wedi bod yn drylwyr iawn.

Cyrhaeddodd yr heddlu, ac roeddent yn gefnogol iawn. Roedd colli'r lluniau a'r gemwaith yn ofnadwy; roeddwn i'n teimlo fel petawn i wedi colli fy mam eto. Roeddwn i eisiau ei dangos i'm merched, a gallu clywed llais fy mam a gweld ei hwyneb. Roedd y lleidr wedi fy amddifadu o hynny, ac fe wnaeth fy nifetha, yn gorfforol ac yn emosiynol.

Ychydig fisoedd ar ôl y lladrad, cefais alwad gan yr heddlu yn dweud eu bod nhw wedi dod o hyd i'r troseddwr. Ei enw oedd Tom, ac mae'n debyg ei fod eisoes yn y carchar erbyn hynny am droseddau eraill.

Gan nad oedd unrhyw broses cyfiawnder troseddol yr oeddwn yn rhan uniongyrchol ohoni yn dilyn hynny, gadawodd hyn wagle. Cefais hysbysiad am ei achos llys a'i ddedfrydu, a dyna ddiwedd y cyfan. Roedd gen i lawer o gwestiynau o hyd, ac roeddwn i'n teimlo nad oedd y mater wedi'i gloi'n effeithiol.

Flwyddyn yn ddiweddarach, cefais alwad ffôn gan Lighthouse Victim and Witness Care yr heddlu. Fe wnaethon nhw sôn wrthyf am gyfiawnder adferol, a gofyn oeddwn i eisiau cymryd rhan yn y broses a chwrdd â Tom. Synnais fy hun drwy fod yn awyddus ar unwaith; roeddwn yn teimlo'r angen am rywbeth mwy.

Roeddwn i'n nerfus iawn am y cyfarfod gan fy mod i'n gwybod y byddai'n agor hen glwyfau, ond roeddwn i'n teimlo'n gryf fy mod i eisiau cymryd rhan ynddo. Roedd angen i Tom weld effaith yr hyn yr oedd wedi'i wneud. Doeddwn i ddim eisiau gweiddi arno, ond roeddwn i eisiau iddo weld pa mor niweidiol fu ei weithredoedd. Roedd ei ddedfryd o garchar yn gosb amhersonol, ac roeddwn i eisiau iddo ddeall yr effaith bersonol yr oedd wedi'i chael arnaf i a fy nheulu.

Roeddwn i'n teimlo'n bryderus fore'r cyfarfod. Roeddwn i'n hollol siŵr fy mod i eisiau mynd yno, ond roeddwn i'n gwybod y byddai hefyd yn anodd iawn i mi. Pan welais i Tom, fodd bynnag, cefais fy synnu oherwydd doedd e ddim fel yr oeddwn wedi'i ddychmygu o gwbl. Ef siaradodd yn gyntaf, ac ymddiheurodd ar unwaith. Ymdriniwyd â'r broses yn sensitif, a

parhad ar dudalen 7

BBC radio cymru S4C

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, Sul, 6 Rhagfyr 2026

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 6 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp
Cymanfa Gogledd Penfro
John S. Davies yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Gogledd Penfro

Oedfa Radio Cymru
Sul, 6 Rhagfyr, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad Carwyn Siddall, Llanuwchlyn

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 6 Rhagfyr am 7.30yh
Rhaglen arbennig yn dathlu 150 mlynedd o waith Undeb y Mamau; daw'r canu o Eglwys Twrog, Llanddarog, dan arweiniad Meinir Richards

Calon ddi-drais 6: parhad o dudalen 6

gwnaed yn glir drwyddi taw er fy lles i yr oedd y broses, nid er lles Tom.

Roedd fel petai wedi'i syfrdanu pan esboniais amgylchiadau'r lladrad. Teimlais ei fod yn edifar, a bod yr hyn oedd gen i i'w ddweud wedi cael effaith arno.

Roedd y cyfarfod â Tom yn fodd o roi clo ar bethau i mi. Gwnaeth yn glir y byddai'n rhoi'r eitemau yr oedd wedi'u dwyn oddi arnaf ac a oedd mor werthfawr i mi yn ôl, os gallai wneud hynny, ond y byddai'n amhosibl gwneud hynny. Roedd yn bwysig i mi glywed hynny, gan ei fod wedi fy helpu i roi'r gorau i obeithio y gallwn gael rhai pethau yn ôl.

Ar ôl y cyfarfod, roeddwn i'n teimlo fy mod wedi gwneud cymaint ag y gallwn i wneud i Tom ddeall gwir effaith yr hyn yr oedd wedi'i wneud, ac i mi nid oedd unrhyw ddirgelwch ynddo mwyach. Byddwn yn argymell cyfiawnder adferol i ddioddefwyr eraill. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol na fydd yn hawdd, ond os ydych chi'n teimlo yn eich calon ei fod yn ffordd o symud ymlaen o'r hyn sydd wedi digwydd i chi, yna ewch amdani.

Mae'r broses cyfiawnder adferol wedi fy helpu i symud ymlaen yn bendant. Mae'n dal i fy mhoeni na fyddaf byth yn cael fy lluniau o'r camcorder a rhywfaint o fy gemwaith yn ôl, ond serch hynny mae'r broses wedi fy helpu i fynd i'r afael â'r boen a dechrau symud ymlaen. [Alli's story Mawrth 2026]

Ydych chi'n cytuno â'r hyn wnaeth Alli? Pam?

Yn y chwe sesiwn hyn rydym wedi dysgu am garu ein hunain, gwrando'n ofalus, peidio â barnu a rheoli dicter. Ble ydych chi'n gweld yr egwyddorion hyn yn stori Alli?

Ym mhob sefyllfa o wrthdaro, mae canlyniad da yn bosibl, ond hefyd ganlyniad drwg neu ganlyniad derbyniol. Pa un o'r tri ydych chi'n meddwl oedd y canlyniad i Alli: un da, drwg neu dderbyniol? I Tom?

Mae Alli'n sôn am deimlo'n nerfus ac yn bryderus wrth iddi hi fynd trwy'r broses. O ble daw'r dewrder i weithredu egwyddorion Iesu? Ydy hi'n werth y gost? Fyddai ymarfer gweddi fyfyriol yn gallu helpu?

Pwy yw'r tangnefeddwyr yn y stori hon?

Ydych chi'n gallu meddwl am sefyllfa yn eich bywyd chi ar hyn o bryd lle mae angen i chi weithredu un neu fwy o'r egwyddorion hyn?

Gweddi:

Yr wythnos hon, helpa ni i ddysgu trwy ein geiriau a'n gweithredoedd beth mae'n ei olygu i wrando arnat ti a gweithredu dy eiriau.

Helpa ni i fod yn dangnefeddwyr yn ein cymunedau a'n teuluoedd.

Rydym yn dod o hyd i'n cymorth ynot ti, Arglwydd Iesu Grist, ffynhonnell pob cariad. Amen.

Gweddïau Adfent dros Heddwch Cyfiawn

Nos Fercher, 9 Rhagfyr | 6–7.30yh | Y Neuadd, Senedd Cymru

Dan nawdd: Peredur Owen Griffiths AS, Huw Thomas AS, Jane Dodds AS a Paul Rock AS

Ar draws Israel a Phalestina, mae cymunedau yn byw drwy drais, colled ac anghyfiawnder dinistriol. Mae Cristnogion Palestinaidd wedi galw ar yr eglwys fyd-eang i ymateb gyda dewrder, trugaredd, a gweithred.

Mewn ymrwymiad cytûn dros gyfiawnder, heddwch ac urddas, mae'r Glymblaid Heddwch Cyfiawn yn dod ag asiantaethau dyngarol ac enwadau Cristnogol at ei gilydd dan yr ymgyrch Amser i Weithredu dros heddwch cyfiawn i bawb sy'n galw'r Tir Sanctaidd yn gartref.

Wrth i ni nesáu at y Nadolig a chlywed stori'r geni o Nasareth i Fethlehem, ymunwch gyda ni i weddïo dros heddwch.

Ymunwch ag aelodau Clymblaid Heddwch Cyfiawn Cymru:

• mewn myfyrdod a gweddi dros heddwch a chyfiawnder;

• i glywed myfyrdodau o'r Tir Sanctaidd;

• i gasglu negeseuon o heddwch ac ewyllys da;

• ac i adnewyddu ymrwymiad i wrando, dysgu, byw, a gweithredu dros gyfiawnder, atebolrwydd a heddwch.

Plis, cadarnhewch eich presenoldeb erbyn 7 Rhagfyr: https://www.christianaid.org.uk/events/gweddiau-adfent-dros-heddwch-cyfiawn



Sasiwn y De – Capel y Morfa, Aberystwyth



Y Parch. Emyr Williams, Ysgrifennydd; Miss Glynis Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol; Miss Bronwen Morgan, Llywydd; y Parch. Carwyn Arthur, cyn-Lywydd

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Gymdeithasfa yn y De yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ddydd Mawrth, 17 Tachwedd 2026, a dros Zoom. Croesawyd y cynrychiolwyr yn gynnes gan Lywydd y Gymdeithasfa, y Parch. Carwyn Arthur, Tregaron, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am y defosiwn.

Cafwyd cyfarchion gan Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, Miss Glynis Owen; gan y Parch. Ian Hayward ar ran y Gymdeithasfa yn y Dwyrain, a chan y Parch. Huw Powell-Davies, ar ran y Gymdeithasfa yn y Gogledd.

Braf oedd gallu rhannu newyddion da o'r Henaduriaethau, ac adroddwyd am benodi gweithwyr newydd ac am ordeinio nifer dda o flaenoriaid newydd.

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell-Davies, ei hadroddiad diweddaraf, a chafwyd adroddiad y Trysorydd gan y Fns Kathryn Morris.

Yn y prynhawn, cynhaliwyd Oedfa'r Llywydd, gyda Mrs Dilys Hughes, Capel y Morfa, yn gyfrifol am y defosiwn agoriadol. Cafwyd cyfle i gofio am y blaenoriaid a hunodd, yn ogystal â thalu teyrnged i'r diweddar Barch. Dafydd H. Owen. Offrymwyd gweddi dros y teuluoedd a'r eglwysi gan Dr Rhidian Griffiths.

Llawenydd oedd llongyfarch y Parch. Meirion Morris ar dreulio dros 40 mlynedd yn y weinidogaeth, ac yntau wedi'i ordeinio yn 1985. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth a'i gyfraniad gwerthfawr.

Yn ei anerchiad cyn y Cymun Sanctaidd, cyfeiriodd y Parch. Eifion Roberts, Capel y Morfa, at dair nodwedd hanfodol o gymdeithas yr eglwys:

• ei bod yn gymdeithas gymodol, lle gweithredir gweinidogaeth y cymod

• ei bod yn gymdeithas gynhaliol, lle bydd yr aelodau'n cynnal ei gilydd

• ei bod yn gymdeithas â phwrpas i'w bodolaeth.

Gweinyddwyd sacrament Swper yr Arglwydd gan y Llywydd, ac yn dilyn hynny trosglwyddwyd y llywyddiaeth i'r Fns Bronwen Morgan, Bwlch-llan. Wrth dderbyn y llywyddiaeth, talodd deyrnged i'r cyn-Lywydd, y Parch. Carwyn Arthur, am gyflawni ei waith mewn modd didwyll a chywir. Diolchodd am y fraint a estynnwyd iddi, gan gyfeirio'n arbennig at y dylanwadau cynnar a fu arni yn y cartref a'r eglwys, ac am gefnogaeth y teulu.

Diolch i Ysgrifennydd y Sasiwn, y Parch. Emyr Williams, am ei ofal gyda'r trefniadau, a theimlwyd i'r Sasiwn fod yn gydgyfarfod bendithiol mewn awyrgylch calonogol a gobeithiol.



Bronwen Morgan yn arwyddo'r Beibl gyda Carwyn Arthur

Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion: Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru**
ar 01745 817584
neu 07957 510346
yn ystod oriau swyddfa
neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111**
am gyngor tu allan i oriau swyddfa.